CARERS TRUST WALES

CANFYDDIADAU CAIS RHYDDID GWYBODAETH YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

Cais Rhyddid Gwybodaeth i awdurdodau lleol ynghylch y grant o £500 i ofalwyr di- dâl

Prif Ganfyddiadau

- Ni dderbyniodd 1 o bob 4 gofalwr di-dâl cymwys y grant o £500[1]
- Dros 15,000 o'r gofalwyr di-dâl mwyaf agored i niwed yn ariannol yng Nghymru £500 yn waeth eu byd [2]
- Mae tua £7.6 miliwn yn system fudd-daliadau Cymru heb ei hawlio[3]

Y Cais Rhyddid Gwybodaeth

Gofynnodd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru faint o geisiadau a gawsant am y taliad o £500 i ofalwyr di-dâl yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, a faint o'r ceisiadau hynny a oedd yn llwyddiannus.

Derbyniodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr ymatebion gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

[1] Cafodd 27% o ofalwyr di-dâl cymwys eu cofnodi yn ein hymatebion Cais Rhyddid Gwybodaeth, a dderbyniodd ymatebion gan pob awdurdod lleol yng Nghymru.
[2] Ffigwr cywir.
[3] Ffigwr cywir.

© Carers Trust. Carers Trust is a registered charity in England and Wales (1145181) and in Scotland (SC042870). Registered as a company limited by guarantee in England and Wales No. 7697170. Registered office: Carers Trust, 10 Regent Place, Rugby, CV21 2PN

Canfyddiadau

Yn genedlaethol, derbyniodd 73% o ofalwyr di-dâl cymwys y taliad o £500

- Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r ganran uchaf o ofalwyr cymwys a dderbyniodd y taliad, sef 83.4%.
- Sir Ddinbych ac Ynys Môn oedd â'r isaf, gyda 64.5% a 65.4% o ofalwyr cymwys yn derbyn y grant o £500.

Eto, mae amrywiad lleol sylweddol o ran gweinyddiaeth ac effeithiolrwydd y cynllun.

Yn nodedig, Ynys Môn a Sir Ddinbych oedd y **lleiaf effeithiol** o ran cyrraedd gofalwyr cymwys ynghylch y grant o £500, ond yr awdurdodau lleol sydd â'r ganran **uchaf** o ofalwyr hysbys sydd â chynllun cymorth (6%), ac felly'n fwyaf tebygol o gael cyswllt rheolaidd a pharhaus â grŵp mwy o ofalwyr di-dâl yn eu hardal o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

I'r gwrthwyneb, Pen-y-bont ar Ogwr oedd y **mwyaf effeithiol** o ran sicrhau bod gofalwyr di-dâl cymwys yn cael mynediad at y £500 ond mae ganddo'r ganran **isaf** o ofalwyr hysbys sydd â chynllun cymorth, sef 0.1% yn unig.

Mae angen ymchwilio pellach i ddeall yr hyn a arweiniodd at amrywiadau yn nifer y bobl sy'n manteisio ar y budd cenedlaethol hwn, a'r gwahanol ddulliau a gymerodd awdurdodau lleol i annog gofalwyr cymwys i wneud cais gyda nhw am y £500.

© Carers Trust. Carers Trust is a registered charity in England and Wales (1145181) and in Scotland (SC042870). Registered as a company limited by guarantee in England and Wales No. 7697170. Registered office: Carers Trust, 10 Regent Place, Rugby, CV21 2PN